

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Testament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

I Samuel  
16: 1-13

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
Duw yn edrych  
ar y galon

## Stori I Dewis brenin.

Roedd Samuel yn ddyn ac yn broffwyd. Roedd proffwyd yn rhywun fyddai'n adrodd wrth y bobl beth oedd gan Dduw i'w ddweud wrthyn nhw. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Samuel am fynd i Fethlehem i weld dyn o'r enw Jesse. Roedd gan Jesse wyth mab.

**Beth oedd enw'r proffwyd? S \_\_\_\_\_**

**Sawl mab oedd gan Jesse? \_\_\_\_\_**

Dywedodd Duw wrth Samuel y byddai un o feibion Jesse yn dod yn frenin! Roedd Samuel yn credu y gallai'r mab cyntaf a welodd (Eliab oedd ei enw) – bachgen tal a golygus – fod yn frenin. Ond dywedodd Duw "Ar olwg person y bydd pobl yn edrych, ond rwyf i'n edrych ar y galon".

Pan oedd Samuel wedi gweld saith o feibion Jesse, dywedodd wrth Jesse, "Nid yw'r Arglwydd wedi dewis unrhyw un o'r rhain. Oes gyda ti fwy o feibion?"

Anfonodd Jesse am ei fab ieuengaf, Dafydd, oedd wedi bod yn gofalu am y defaid. Pan gyrhaeddodd Dafydd, dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, "Dyma'r un!" Arllwysodd Samuel olew am ben Dafydd – roedd 'eneinio' gydag olew fel hyn yn arwydd y byddai Dafydd yn frenin, un diwrnod.

Dim ond Duw allai edrych ar galon Dafydd a gweld ei fod yn berson addas i fod yn frenin.






DARLLENWCH  
I Samuel  
17: 1-31

Mae'r stori hon yn  
sôn am:  
**Duw yn rhoi**  
**dewrder**

## Stori 2 Ymladd Goliath.

Cawr o filwr ym myddin y Philistiaid oedd Goliath. Doedd y Philistiaid ddim yn ymddiried yn Nuw. Roedd yr Israeliaid a'r Philistiaid yn rhyfela. Ond roedd yr Israeliaid yn ymddiried yn Nuw. Droeon cyn hyn roedd Duw wedi eu helpu i ennill brwydrau pan fydden nhw'n ymddiried Ynddo.



Bob dydd gweiddai Goliath, "Dewiswch un o'ch dynion i ymladd yn f'erbyn. Os bydd ef yn ennill ac yn fy lladd, byddwn yn gaethweision i chi. Ond os byddaf i'n ennill, chi fydd ein caethweision ni."

Bob tro y clywai'r Israeliaid Goliath yn gweiddi, deuai ofn arnynt. Roedden nhw wedi anghofio y byddai Duw yn eu helpu.

**Beth oedd enw'r cawr? G \_\_\_\_\_**

**Rhowch gylch o gwmpas yr enw sy'n disgrifio sut y teimlai'r Israeliaid wrth glywed llais Goliath.**

ofnus      hapus      trist

Un diwrnod, anfonodd Jesse ei fab Dafydd i'r frwydr i weld sut roedd ei frodwr yn dod yn eu blaen. Tra'r oedd yno, clywodd Dafydd Goliath yn gweiddi a gwelodd mor ofnus oedd y bobl. "Addawodd y Brenin Saul roi gwobr fawr i'r dyn sy'n ei ladd," meddent. Roedd Duw wedi addo edrych ar ôl yr Israeliaid, dim ond iddynt ymddiried Ynddo. Roedd Dafydd yn credu Duw, a dywedodd wrth bawb y gallai'r Arglwydd drechu Goliath.

**Lliwiwch y geiriau i ddangos enw'r Un roedd Dafydd yn ymddiried ynddo.**

Y DUW BYW

Clywodd y brenin Saul beth ddywedodd Dafydd a gofynnodd am ei weld.

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Enw \_\_\_\_\_



DARLLENWCH  
I Samuel  
17: 32-51

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
Duw yn rhoi'r  
fuddugoliaeth


## Stori 3 Trechu Goliath.

Pan glywodd y Brenin Saul fod Dafydd yn sôn am ymladd yn erbyn Goliath, y cawr, gofynnodd am weld Dafydd.

“Eich Mawrhydi. Ddylai neb ofni'r Philistiad hwn!”, ebe Dafydd wrth Saul. “Fe ymladdaf i yn ei erbyn.”

Fedrai Saul fyth gredu ei bod yn bosibl i Dafydd ymladd Goliath. Dim ond bachgen oedd Dafydd ac roedd Goliath wedi bod yn filwr ers amser hir.

Roedd Dafydd yn ddewr iawn. Pan oedd yn gofalu am ddefaid ei dad, ymosododd llew ac arth ar y defaid ond llwyddodd Dafydd i ladd y llew yn ogystal â'r arth.



### Llanwch y bylchau.

**Dyweddodd Dafydd y byddai'n ymladd Goliath. Roedd Dafydd yn ddilys iawn. Roedd wedi lladd**

**llwyddodd Dafydd ac a llwyddodd.**



Dyweddodd Dafydd wrth Saul beth roedd e wedi'i wneud. Gwyddai y byddai'r Arglwydd yn ei helpu i ymladd Goliath.

Rhoddodd Saul ei arfwisg i Dafydd, ond roedd honno'n rhy fawr iddo. Cymerodd Dafydd bum carreg o'r nant a chydiodd yn ei ffon dafl.

Chwarddodd Goliath pan welodd Dafydd. Credai y byddai'n hawdd iddo ladd Dafydd. Rhoddodd Dafydd ei ffydd yn Nuw i'w helpu. Dododd un garreg yn ei ffon dafl, ac fe drawodd y garreg Goliath yn ei dalcen.

Syrthiodd Goliath i'r llawr.

Rhedodd Dafydd at Goliath a chymerodd ei gleddyf a'i ladd.

Llwyddodd Dafydd i ladd Goliath am iddo ymddiried yn Nuw.

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Enw



DARLLENWCH  
I Samuel  
18: 1-16

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
Duw yn  
amddiffyn

## Stori 4 Byw gyda Saul.

Oes gyda chi ffrind gorau? Jonathan oedd enw ffrind gorau Dafydd. Roedd yn fab i'r Brenin Saul.

Roedd Saul wrth ei fod pan laddodd Dafydd Goliath. Aeth Dafydd i fyw gyda'r Brenin Saul a'i deulu.

### Llanwch y bylchau.

**Roedd gan Dafydd ff\_\_\_\_\_ gorau o'r enw  
J\_\_\_\_\_.**

### Roedd yn f\_\_\_\_ i Saul.

Roedd Dafydd yn filwr da a chyn hir penododd Saul ef yn swyddog yn y fyddin.

Un diwrnod, clywodd Saul griw o wragedd yn canu yn y stryd.


“Lladdodd Saul ei filoedd, a Dafydd ei fyrrddiynau,” meddent.

Digiodd Saul yn arw wrth Dafydd pan glywodd hynny. Doedd e ddim yn hoffi meddwl mai Dafydd ac nid ef oedd ffefrym y bobl.

Drannoeth, pan oedd Dafydd yn canu ei delyn yn y ty, gwyltiodd Saul.

Tafloedd ei waywffon at Dafydd, ond llwyddodd Dafydd i'w hosgoi. Roedd Duw yn amddiffyn Dafydd.

Gallwn ninnau hefyd ymddiried yn Nuw y bydd Ef yn gofalu amdanom!



10

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoedd y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynys Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org).  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys, LL53 6SH % 01766 819120